# Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Mawrth 2025

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell – Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.05 – 13.10)

### 3.3 SL(6)585 – Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025

(Tudalennau 1 – 2)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 – Papur 4 – Adroddiad drafft

## 6 Papurau i'w nodi

(13.20 – 13.25)

### 6.7 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd Meddwl

(Tudalennau 3 – 10)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 – Papur 31 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 28 Chwefror 2025

## 12 Nodyn briffio ar gyfer yr Aelodau ar brosesau deddfwriaethol y Senedd

(14.45 - 15.15) (Tudalennau 11 - 51)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-25 – Papur 30 – Papur briffio ynghylch sesiwn dystiolaeth [Saesneg yn unig]

# SL(6)585 – Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) ("y Rheoliadau hyn") yn cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen drwy leoliad a phris ar sail swmp yng Nghymru.

Bydd y cyfyngiadau'n atal manwerthwyr canolig a mawr (sydd â 50 neu ragor o weithwyr cyflogedig), sy'n gwerthu bwyd neu ddiod yng Nghymru, rhag arddangos cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen mewn lleoliadau allweddol mewn siop neu ar-lein a rhag cynnig y cynhyrchion hynny fel rhan o hyrwyddiad pris ar sail swmp. Mae'r 13 o gategorïau o fwyd penodedig wedi'u rhestru yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

Hefyd, bydd busnesau cymwys yn y sector manwerthu a thu allan i'r cartref yn cael eu gwahardd rhag cynnig hyrwyddiad ail-lenwi am ddim ar gyfer diodydd sydd wedi'u melysu â siwgr.

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau hyn y llynedd, ac mae'n nodi bod y Rheoliadau hyn yn gam hanfodol wrth gyflawni'r uchelgeisiau yn y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru i'r Rheoliadau hyn yn darparu mai nod y cyfyngiadau hyn yw lleihau gorfwyta cynhyrchion â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen sy'n gallu cyfrannu at sefyllfa pan fo plant dros bwysau neu'n byw gyda gordewdra.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 15 o'r testun Saesneg, enw cywir y ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yw "the Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008". Mae'r enw a ddefnyddir yn y testun Cymraeg yn gywir.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraff 13 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn yn darparu y caiff awdurdod bwyd dynnu'n ôl hysbysiad sy'n gosod cosb ariannol benodedig. Mae Atodlen 2 yn diffinio dau fath o hysbysiadau, "hysbysiad o fwriad" sef pan fo awdurdod bwyd yn cynnig gosod cosb ariannol benodedig ar berson (paragraff 2(1)), a hysbysiad sy'n gosod cosb ariannol benodedig, a ddiffinnir fel "hysbysiad terfynol" (paragraff 5(1)).

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pa un o'r hysbysiadau hyn y bwriedir iddo fod o fewn cwmpas paragraff 13. Os mai'r bwriad yw darparu pŵer i'r awdurdod bwyd i dynnu'n ôl "hysbysiad terfynol" yn unig, nid yw'n glir pam na ddefnyddir y term "hysbysiad terfynol" ym mharagraff 13 fel y cyfeirir ato mewn mannau eraill yn Atodlen 2 (gweler paragraffau 6 i 10).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Disgwylir i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar 26 Mawrth 2026, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u cysoni i raddau helaeth â'r Rheoliadau sydd ar waith yn Lloegr. Daeth Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Lloegr) 2021 i rym ar 1 Hydref 2022, ac mae rhai darpariaethau'n ymwneud â hyrwyddiadau pris ar sail swmp (gan gynnwys ail-lenwi diodydd am ddim) i ddod i rym ar 1 Hydref 2025. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymgynghori'n ddiweddar i geisio barn am fanylion Rheoliadau arfaethedig i gyfyngu ar hyrwyddo bwydydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen, ond nid yw'r Rheoliadau hynny wedi'u cyflwyno eto.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ddau bwynt adrodd technegol yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Chwefror 2025**

**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

28 Chwefror 2025

Annwyl Mike,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd Meddwl**

Diolch i chi am eich llythyr ar 4 Chwefror 2025, yn gofyn am ragor o wybodaeth i helpu'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Iechyd Meddwl. Mae fy atebion i'ch cwestiynau wedi'i amgáu yn yr Atodiad.

Yn gywir

S. Murphy

**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad**

**Cwestiwn 1:**

**Pam ydych yn credu ei bod yn briodol gwneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru mewn Bil Llywodraeth y DU, yn hytrach nag mewn Bil a gyflwynir i'r Senedd?**

Rydym yn dilyn yr egwyddor y dylai deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan y Senedd. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn barod i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ei rhaglen ddeddfwriaethol ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni canlyniadau sydd er budd gorau Cymru, gan barchu datganoli.

Mae'r Bil Iechyd Meddwl yn adlewyrchu'r egwyddor hon, gyda chydweithio agos rhwng swyddogion i ddatblygu darpariaethau yn y Bil o'r cychwyn cyntaf.

Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, er bod y Bil hwn yn rhoi sylw i faterion datganoledig, mae hefyd yn gwneud darpariaeth o ran materion a gedwir yn ôl. Mae'r gydberthynas rhwng materion a gedwir yn ôl a materion datganoledig wedi'i chysylltu'n agos; er enghraifft, cymal 34 (trosglwyddiadau o'r carchar i'r ysbyty: amodau) a chymal 35 (trosglwyddiadau o'r carchar i'r ysbyty: terfynau amser).

Rwyf felly yn ystyried bod deddfu drwy Fil gan Lywodraeth y DU yn cynnig y dull gweithredu mwyaf cydlynol ar gyfer y darpariaethau a gyflwynir yn y ddeddfwriaeth hon.

**Cwestiwn 2:**

**Sut y digwyddodd eich cyfranogiad yn y Bil, a phryd y gwnaed y penderfyniad terfynol i geisio darpariaeth ar gyfer Cymru mewn Bil Llywodraeth y DU?**

**Cwestiwn 3:**

**Daeth yr Adolygiad Annibynnol yn argymell diwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983 i ben yn 2018 a chyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil drafft yn nodi newidiadau arfaethedig i Ddeddf 1983 yn 2022, na fwriwyd ymlaen ag ef yn y Senedd ddiwethaf. A allech amlinellu:**

- **i. A wnaeth y Bil drafft a gyhoeddwyd yn 2022 ddarpariaeth ar gyfer Cymru;**
- **ii. Beth oedd barn Llywodraeth Cymru am y Bil drafft ar y pryd;**
- **iii. A ydych yn ymwybodol o'r rhesymau dros yr oedi mewn perthynas â'r Bil hwnnw gan Lywodraeth y DU.**

Byddaf yn ymateb i gwestiynau 2 a 3 gyda'i gilydd oherwydd eu bod yn ymwneud â'i gilydd. Ym mis Hydref 2017, cyhoeddwyd adolygiad annibynnol o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ("y Ddeddf") gan Lywodraeth y DU. Roedd yn edrych ar sut mae'r Ddeddf yn cael ei defnyddio a sut y gellir gwella ymarfer, gan edrych yn benodol ar pam:

- mae niferoedd cynyddol o bobl yn cael eu cadw o dan y Ddeddf
- mae niferoedd anghymesur o bobl o grwpiau du ac ethnig leiafrifol yn cael eu cadw.

Yn dilyn yr argymhellion a wnaed yn yr adolygiad annibynnol, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn ar y Bil sy'n cynnwys meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru. Gofynnodd Llywodraeth y DU am gytundeb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnwys darpariaeth i Gymru (yn amodol ar gydsyniad deddfwriaethol ffurfiol).

Derbyniodd swyddogion gopïau o ymatebion Cymru i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, a'r adroddiad cryno a luniwyd gan Lywodraeth y DU yn ymdrin â'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Sefydlodd swyddogion grŵp cyfeirio hefyd, yn cynnwys cynrychiolwyr o Goleg Brenhinol y Seicolegwyr, GIG Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd safbwynt polisi i Gymru mewn ymateb i'r argymhellion yn y Papur Gwyn.

Cynhaliodd swyddogion sesiynau ffocws i brofi safbwyntiau arfaethedig gyda grwpiau allweddol gan gynnwys Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru, y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl a Llywydd Tribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru.

Ar sail y gwaith hwn, cytunodd y Gweinidogion y dylid cynnwys Cymru yn y diwygiadau canlynol, yn amodol ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

- Egwyddorion diwygiedig ar gyfer gwneud penderfyniadau
- Meini prawf diwygiedig ar gyfer cadw o dan y Ddeddf
- Newidiadau i'r drefn ar gyfer atgyfeiriadau awtomatig i dribiwnlys iechyd meddwl
- Mwy o bwerau i'r tribiwnlys iechyd meddwl ganiatáu absenoldeb, trosglwyddiadau a gwasanaethau cymunedol, ac i orchymyn na roddir triniaeth benodol
- Dileu rôl panel y rheolwyr wrth adolygu achos claf dros gael ei ryddhau o'r ddalfa neu o orchymyn triniaeth gymunedol
- Cyflwyno dogfennau dewis ymlaen llaw
- Hawl gryfach i gleifion sydd â'r gallu i wrthod triniaeth
- Pwerau ychwanegol i'r Person Enwebedig ac i Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol
- Gwell safonau, achrediad a rheoleiddio ar gyfer eiriolaeth iechyd meddwl.

Cytunwyd hefyd fod **Cymru wedi'i heithrio** o'r diwygiadau canlynol:

- Dyletswydd statudol ar awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol i gyflawni yn unol â chyfarwyddiadau gan y tribiwnlys iechyd meddwl o fewn cyfnod o 5 wythnos
- Cynigion sy'n ymwneud â Chynlluniau Gofal a Thriniaeth
- Y ddyletswydd newydd ar gomisiynwyr lleol i sicrhau digonolrwydd y cyflenwad o wasanaethau cymunedol.

Anfonwyd llythyr Gweinidogol, gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant bryd hynny, at Lywodraeth y DU ar 21 Hydref 2021 i gadarnhau'r sefyllfa ar gyfer Cymru. Byddai angen cyfeirio cwestiynau ynghylch pam na wnaeth Llywodraeth flaenorol y DU ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon at aelodau'r llywodraeth honno.

Mewn perthynas â Bil Iechyd Meddwl 2025, ysgrifennodd y Gweinidog Diogelwch Cleifion, Iechyd Menywod ac Iechyd Meddwl at y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar 4 Tachwedd 2024 yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru y bydd y Bil Iechyd Meddwl yn cael ei gyflwyno i Senedd y DU. Ymatebodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar 6 Tachwedd yn cadarnhau bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil wedi'i osod yn y Senedd.

**Cwestiwn 4:**

**Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 10 Ionawr 2025 yn amlinellu'r cyfathrebu sydd wedi digwydd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil hwn.**

i. **Pa waith datblygu polisi sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag iechyd meddwl?**
ii. **Pa rôl oedd gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r cynigion yn y Bil, a sut mae ei gwaith datblygu polisi wedi'i adlewyrchu yn y Bil.**

Mae'r gwaith polisi a wnaed yn cael sylw yn yr ymateb i gwestiynau 2 a 3 uchod, yn enwedig mewn perthynas â sut y defnyddiwyd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn i sicrhau bod lleisiau o Gymru yn hysbysu'r Bil.
Ochr yn ochr â datblygu'r Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol, a'r Strategaethau Hunanladdiad a Hunan-niwed y llynedd. Mae adroddiad yr ymgynghoriad ar gael yma: [Strategaeth ddrafft iechyd meddwl a llesiant meddyliol | LLYW.CYMRU]

Ein nod yw cyhoeddi'r strategaethau ym mis Ebrill. Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer cymorth iechyd meddwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael ei arwain gan anghenion, sy'n cyd-fynd â'r dull a nodir yn y Bil Iechyd Meddwl. Bydd y strategaeth hefyd yn nodi ein huchelgais i wasanaethau ddarparu cymorth yn gynharach, gyda'r nod yn y pen draw o leihau'r angen i gadw unigolyn mewn uned iechyd meddwl, neu ei dderbyn yno.

**Cwestiwn 5:**

**Pa dystiolaeth a/neu ddata a gafwyd gan randdeiliaid Cymru neu mewn perthynas â chleifion o Gymru yn ystod y broses o ddatblygu'r Bil, a sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Bil?**

Roedd Llywodraeth flaenorol y DU wedi bwriadu cyflwyno'r Bil Iechyd Meddwl i gyflawni'r argymhellion yn Adolygiad Wessely. Cyhoeddwyd Bil drafft a bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod lleisiau o Gymru yn cael eu clywed fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Bil - cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi'n eang ymhlith rhanddeiliaid yng Nghymru.

Cafodd yr ymatebion i'r Papur Gwyn eu derbyn yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU, ond rhannwyd yr ymatebion o Gymru gyda Llywodraeth Cymru fel y gallem eu hystyried mewn perthynas â materion datganoledig. Fe wnaethom hefyd gynnull Grŵp Cyfeirio sy'n cynrychioli rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru i lywio'r broses hon.
Er na chwblhaodd y Bil gwreiddiol ei hynt drwy Senedd y DU - a bod rhwystredigaeth a siom ar y pryd - cawsom ymgysylltiad da â rhanddeiliaid yng Nghymru drwy ymgynghoriad cyhoeddus ac roedd croeso yn gyffredinol i'r cynigion. Caiff hyn ei adlewyrchu ym Mil Iechyd Meddwl 2025.

Mae swyddogion hefyd yn cyfarfod fel mater o drefn â rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr y trydydd sector yng Nghymru ac fe gafwyd trafodaethau ar y Bil yn y cyfarfodydd hyn.

**Cwestiwn 6:**

**Pa gymalau yn y Bil sy'n ystyried amgylchiadau penodol i Gymru?**

Mae cymal 2 o'r Bil yn ddarpariaeth dechnegol sy'n ddibynnol ar y ddarpariaeth a wneir gan gymal 1 (egwyddorion i lywio penderfyniadau). Mae cymal 2 yn rhoi'r dyletswyddau priodol yn adran 118 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i sicrhau bod yr egwyddorion a'r materion y mae angen mynd i'r afael â nhw yn cael eu cynnwys yn y cod ymarfer sydd i'w gyhoeddi gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

Mae cymal 18 y Bil yn creu pwerau newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Mae'r pwerau hyn yn galluogi gwneud darpariaeth i ganiatáu i Glinigwr Cymeradwy ardystio therapi electrogynhyrfol brys o dan amgylchiadau penodol, gan osgoi'r angen am feddyg a benodwyd i roi ail farn (SOAD) mewn achosion eithriadol. Mae hyn yn gymwys lle mae'r driniaeth dan sylw yn cael ei darparu yng Nghymru. Mae'r pwerau'n galluogi gosod dyletswyddau ar bersonau penodedig ar gyfer y diben o sicrhau bod tystysgrif triniaeth y SOAD yn cael ei rhoi o fewn cyfnod penodol o amser.

Mae cymal 51A (a ystyriwyd yn flaenorol yn gymal 52 newydd) yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae gweithdrefn y Senedd sy'n gysylltiedig â rheoliadau o dan y ddarpariaeth hon yn berthnasol i gwestiwn 12. I grynhoi, er bod y weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys ar hyn o bryd o dan y Bil, mae cynlluniau ar y gweill i ddiwygio hyn i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol lle byddai deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei diwygio.

**Cwestiwn 7:**

**Beth yw eich barn am awgrym bod Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar Fil a luniwyd ar gyfer Lloegr?**

Roedd y Bil drafft yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed gan Syr Simon Wessely yn yr adolygiad annibynnol o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Er bod yr adolygiad wedi'i gomisiynu gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr, mae'r canfyddiadau'n berthnasol i Gymru. Roedd gan Lywodraeth Cymru gynrychiolaeth hefyd ar y panel cynghori a gynullwyd i gasglu tystiolaeth a safbwyntiau drwy gydol yr adolygiad.
Mae'r Bil hefyd yn adlewyrchu arferion yr ydym wedi eu harwain yng Nghymru drwy ein Mesur Iechyd Meddwl (Cymru), er enghraifft cynllunio gofal a thriniaeth statudol ac ymestyn eiriolaeth iechyd meddwl.

Fel y nodir yn yr ymateb i gwestiynau 2 a 3, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n llawn â'r Bil ers cyhoeddi'r Papur Gwyn. Roedd yr ymateb ar lefel swyddogol i'r Papur Gwyn yn seiliedig ar farn rhanddeiliaid yng Nghymru felly rydym wedi cael y cyfle i lywio'r Bil drafft wrth iddo fynd rhagddo.

Trafodais yn fy ymateb i gwestiwn 1 bod y gydberthynas rhwng materion a gedwir yn ôl a materion datganoledig wedi'i chysylltu'n agos, a Bil y DU yw'r ffordd fwyaf cydlynol o ddeddfu yn y maes hwn.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfarfod yn wythnosol gyda swyddogion Llywodraeth y DU ac rydym yn cydweithio ar y Bil.

**Cwestiwn 8:**

**Mae paragraff 13 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn datgan y "Ceir llawer iawn o ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir ar y ddwy ochr i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Byddai peidio â gwneud darpariaethau yn y Bil hwn yn creu risg o fwy o wahaniaethau rhwng y gwasanaethau sydd ar gael yn y ddwy wlad." Pa ystyriaeth a roddodd Llywodraeth Cymru i ddeddfu ochr yn ochr â Senedd y DU drwy Fil a gyflwynir i'r Senedd, i leihau'r risg o wahaniaethau rhwng y gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr?**

Fel y nodwyd yn fy ymatebion i gwestiynau blaenorol, mae barn rhanddeiliaid yng Nghymru wedi hysbysu'r Bil drwy ymgynghoriad cyhoeddus ar y Papur Gwyn. Er bod y Bil hwn yn rhoi sylw i faterion datganoledig, mae hefyd yn gwneud darpariaeth o ran materion a gedwir yn ôl. Am y rheswm hwnnw, rwy'n ystyried deddfu drwy Fil y DU i gynnig y dull mwyaf cydlynol o ymdrin â'r darpariaethau a gyflwynir yn y ddeddfwriaeth hon, yn enwedig o ystyried gweithrediad trawsffiniol Deddf Iechyd Meddwl 1983

**Cwestiwn 9:**

**Mae paragraff 15 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn datgan "Er bod y Bil hwn yn rhoi sylw i faterion datganoledig, mae hefyd yn gwneud darpariaeth o ran materion a gedwir yn ôl. Rwyf felly yn ystyried bod deddfu drwy Fil gan Lywodraeth y DU yn cynnig y dull gweithredu mwyaf cydlynol ar gyfer y darpariaethau a gyflwynir yn y ddeddfwriaeth hon".**
**i. Beth yw'r cydbwysedd rhwng materion a gedwir yn ôl a materion datganoledig yn y Bil?**
**ii. Beth yw'r gydberthynas rhwng materion a gedwir yn ôl a materion datganoledig yn y Bil ac i ba raddau ydynt wedi'u cydblethu?**

Mae'r cydbwysedd rhwng materion a gedwir yn ôl a materion datganoledig yn y Bil hwn yn weddol gyfartal fel yr adlewyrchir yn nifer y cymalau a gynhwysir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Yn llawer o'r cymalau, mae'r gydberthynas rhwng materion a gedwir yn ôl a materion datganoledig wedi'i chysylltu'n agos; er enghraifft, cymal 34 (trosglwyddiadau o'r carchar i'r ysbyty: amodau) a chymal 35 (trosglwyddiadau o'r carchar i'r ysbyty: terfynau amser).

**Cwestiwn 10:**

**Pam nad yw Llywodraeth Cymru yn credu bod angen cydsyniad mewn cysylltiad â chymalau 9, 33, 47 ac 48, yn enwedig o ystyried bod Llywodraeth Cymru yn credu bod angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau eraill o natur debyg, megis cymalau 34 a 35 (yn ymwneud â throsglwyddo carcharorion)?**

Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad mewn perthynas â'r cymalau uchod gan nad ydynt yn ystyried materion datganoledig.

**Cwestiwn 11:**

**Mae'n ymddangos y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cadw'r pŵer i wneud rheoliadau mewn maes datganoledig o dan Gymal 51. Pam y mae hyn yn angenrheidiol, ac a ydych yn fodlon bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael y pwerau hyn?**

Mae cymal 51 o'r Bil yn cynnwys pŵer canlyniadol i'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau y gall Llywodraeth y DU weithredu amcanion polisi o dan y Bil, gan gynnwys mewn meysydd a gedwir yn ôl. Mae'r pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol yn gyfyngedig o ran cwmpas gan ei fod yn ganlyniadol i'r darpariaethau o sylwedd yn y Bil y ceisiwyd cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Mae Gweinidogion Cymru bellach wedi cael pwerau cyfatebol mewn perthynas â meysydd datganoledig Cymru yng nghymal newydd 51A **.**

**Cwestiwn 12:**

**Mae Cymal 52 newydd yn rhoi pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â meysydd datganoledig Cymru. Mae'r pŵer hwn yn cyfateb i'r hyn a ddarperir i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 51.**

**i. A wnaethoch ofyn i'r weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys i'r pŵer Harri'r Wythfed hwn ac os na wnaethoch, pam?**

**ii. Pwy fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys - Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru?**

**iii. Pe bai Llywodraeth Cymru am gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i'r pŵer hwn, a fyddai rhwystr i hynny ddigwydd? Er enghraifft, a yw'r ffaith ei fod yn Fil Llywodraeth y DU yn golygu mai Llywodraeth y DU fydd â'r penderfyniad terfynol ar ddewis y weithdrefn graffu?**

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei bwriad i gyflwyno gwelliant pellach i gymalau 51 a 51A (y deellir yn flaenorol yn gymal 52 newydd) yn fuan. Bydd y gwelliant arfaethedig pellach hwn yn diwygio'r weithdrefn sydd ynghlwm wrth reoliadau a wnaed. Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r cynnig hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn deall y bydd y gwelliant yn darparu bod rheoliadau a wneir o dan bwerau diwygio canlyniadol y Bil sy'n diwygio neu ddiddymu darpariaeth a wneir gan ddeddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn datrys cadarnhaol, gydag unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan bwerau diwygio canlyniadol yn y Bil (er enghraifft, diwygio neu ddirymu is-ddeddfwriaeth) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn datrys negyddol.

**Cwestiwn 13:**

**Mae Cymal 53(3) yn datgan na fydd llawer o ddarpariaethau yn y Bil yn dod i rym nes y gwneir rheoliadau i'r perwyl hwnnw gan yr Ysgrifennydd Gwladol.**
**i. Pam nad oes pwerau cychwyn i Weinidogion Cymru?**
**ii. A oes gennych unrhyw bryderon am y ffaith nad oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth i gychwyn y darpariaethau pan fyddant am wneud hynny, er mwyn sicrhau bod y GIG yng Nghymru a rhanddeiliaid cysylltiedig eraill yn barod i weithredu'r newidiadau hyn ar yr adeg berthnasol?**
**iv. Pam nad ydych yn ceisio cydsyniad ar gyfer cymal 53?**

Ni cheisiwyd cydsyniad mewn perthynas â chymal 53 gan fod hon yn ddarpariaeth dechnegol sy'n egluro cychwyn y Bil yn hytrach na darpariaeth o sylwedd. Mae'r ddarpariaeth cychwyn yn sicrhau y gall amcanion polisi o dan y Bil gael eu gweithredu gan Lywodraeth y DU. Mae hyn yn osgoi cymhlethdodau ac anymarferoldeb posibl a allai godi pe bai darpariaethau cychwyn ar wahân yn cael eu cynnwys yn y Bil mewn perthynas â Chymru, nad yw'n ymddangos yn angenrheidiol yng nghyd-destun y Bil hwn.
Mae fy swyddogion yn parhau i gwrdd yn wythnosol gyda swyddogion Llywodraeth y DU ac wedi datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol a chydweithredol. Bydd hyn yn sicrhau bod darpariaethau'n dechrau ar amser priodol.

**Cwestiwn 14:**

**A allwch esbonio sut y gall pwyllgorau'r Senedd ymgysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn cynnig gwelliannau i'r Bil, os byddant am wneud hynny?**

Rwy'n awyddus i sicrhau bod y Senedd yn cael ei chynnwys ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf cyn gynted â phosibl am y materion hyn, a byddaf yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â’r Pwyllgorau. Bydd y Trefnydd yn parhau i ymgysylltu â'r Pwyllgor Busnes mewn perthynas ag unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog.

**Cwestiwn 15:**

**A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gofyn am wneud unrhyw newidiadau eraill i'r Bil?**

Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU ar y ddeddfwriaeth hon ac maent gyda'i gilydd yn ystyried datblygiadau a materion wrth iddynt ddod i'r amlwg. Ar wahân i'r gwaith parhaus i ystyried gwneud gwelliant i gymalau 51 a 51A (y cyfeirir atynt yn yr ateb i Gwestiwn 12), nid ydym yn gofyn am unrhyw newidiadau penodol i'r Bil ar hyn o bryd**.**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon